# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau'r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweinyddu mesurau cenedlaethol ar gyfer y cynllun premiwm cigydda ar gyfer anifeiliaid buchol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau yn gymwys i ddaliadau yng Nghymru a hefyd i'r daliadau hynny sydd yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol mewn man arall yn y Deyrnas Unedig. Bwrdd Ymyrraeth Cynnyrch Amaethyddol fydd yn gyfrifol am brosesu hawliad y ffermwr.

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn ddilyn y 'Weithdrefn Safonol'. Gwnaed Rheoliadau tebyg yn Lloegr ar 29/12/00.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae nifer o wallau teipograffyddol a mân wallau drafftio wedi'u nodi. Rhoddir y manylion amdanynt isod o dan Sylwadau Cyffredinol. Byddai’n briodol cywiro pob un o'r rhain drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Rhoddir sylw arbennig i'r gwallau drafftio a nodir o dan y penawdau canlynol -

Dod i rym a Rheoliad 1.

Rheoliad 14.

Yr Atodlen - paragraff 2.

Er mai mân bwyntiau yw’r uchod, maent yn enghreifftiau o ddrafftio diffygiol y byddai angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5(v).

Ar yr amod bod y materion uchod yn cael eu cynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau, mae'r Pwyllgor, serch hynny, yn fodlon adrodd nad oes unrhyw bwyntiau y mae angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae angen rhoi dyddiad yn yr ail linell o'r paragraff cyntaf yn y testun Cymraeg.

Gan mai Nodyn Esboniadol yw hwn, gyda’r bwriad o helpu'r darllenydd i gael dealltwriaeth well o'r Rheoliadau, byddai wedi bod yn fanteisiol rhannu'r testun yn baragraffau byrrach.

**Dod i rym a Rheoliad 1**

Mae angen rhoi'r dyddiad yn y testun Cymraeg.

**Rheoliad 2(1)**

Mae 'Ceisydd' yn cael ei ddefnyddio yn y testun Cymraeg i gyfateb i’r gair Saesneg 'Claimant'.  Deellir mai’r hyn sy’n cael ei wneud yw hawlio’r premiwm yn hytrach na chyflwyno cais amdano; gan mai dyna'r sefyllfa, buasai 'Hawliwr' yn well.

**Rheoliad 8(3)**

Mae coma gormodol yn y chweched linell yn y testun Cymraeg; ac mae angen gofod rhwng 'pellach' ac 'o' yn y drydedd linell o'r gwaelod.

**Rheoliad 8(4)**

Mae cromfachau wedi'u hepgor o amgylch '5' yn y bumed linell yn y testun Saesneg.

**Rheoliad 10(b)**

Mae bach petryal gormodol yn y testun Cymraeg.

**Rheoliad 14**
Yn y testun Cymraeg dylai '(13)(2)(f)' fod yn '(13)(d)(dd)'

**Rheoliad 24(1)**

Credir y dylai 'yn annedd' fod yn 'fel annedd'.

**Yr Atodlen - paragraff 2**

Nid yw'r testun Cymraeg yn cyfeirio at y rhif tag clust o gwbl.

**Mick Bates A.C.**
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfau

27 Chwefror 2001